| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **20 Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd** |
| **AWDUR** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Craig ab Iago** |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Mae gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd yn brosiect sydd wedi ei gynnwys yng Nghynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 y Cyngor.

1.2 Craffwyd cynnydd y prosiect a'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 5 Hydref 2023. Penderfynwyd:

(i) Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth;
(ii) Gofyn i’r Aelod Cabinet/Adran Amgylchedd edrych i mewn i ddarparu mwy o beiriannau gwefru chwim;
(iii) Derbyn adroddiad cynnydd pan yn amserol.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Mae’r isod yn ymateb i’r cwestiynau penodol sydd wedi eu codi gan y Pwyllgor:

### 2.1 A oes ystyriaeth wedi ei roi i ddarparu mwy o beiriannau gwefru chwim?

Ers y cyfarfod diwethaf yn mis Hydref 2023, mae'r Adran wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyflwyno peiriannau gwefru chwim.

Rydym wedi adolygu ein cynlluniau ar cyn-safle maes parcio ‘Shell’, Caernarfon i gynnwys gosod peiriannau chwim ochr yn ochr â'r peiriannau cyflym presennol. Yn ogystal, rydym yn blaenoriaethu gosod peiriannau gwefru chwim mewn lleoliadau eraill.

### 2.2 Pa gynnydd sydd wedi ei wneud?

Ers y cyfarfod diwethaf, mae 6 safle ychwanegol wedi dod yn fyw, sydd wedi cynyddu’r nifer o beiriannau gwefru sydd ar gael ar gyfer defnydd cyhoeddus i 52.

O’r 6 safle newydd, mae 2 safle yn cynnwys peiriannau gwefru chwim. Mae crynodeb o’r darpariaeth presennol a chynlluniau sydd ar y gweill i weld yn **Atodiad A.**

**2.3 Pa ddulliau talu sydd ar gael i'r cyhoedd dalu am wefru cerbydau?**

Mae modd defnyddio AP ffôn glyfar neu gerdyn clyfar 'RFID' i dalu am y gwasanaeth ym mhob un o safleoedd y Cyngor.

Mewn rhai safleoedd, mae hefyd yn bosib defnyddio cerdyn banc.

Ein bwriad hirdymor yw sicrhau bod modd defnyddio'r 3 dull uchod ym mhob safle.

**2.4 Faint o ddefnydd sydd o bwyntiau gwefru ar diroedd y Cyngor?**

Yn gyffredinol mae'r defnydd y peiriannau gwefru wedi bod yn gadarnhaol:

- Yn mis Awst 2024 recordiwyd 2,181 o sesiynau gwefru (sef y mis fwyaf prysur).
- Yn mis Rhagfyr 2024 recordiwyd 1,030 o sesiynau gwefru (sef y mis lleiaf prysur).

**3. Cwestiynau Ychwanegol**

**3.1 Beth yw'r Cynllun / Amserlen ar gyfer cyflawni?**

Mae manylion am y cynlluniau i ddod i'w gweld yn **Atodiad A**, ond i grynhoi, rydym yn gweithio ar raglen waith i gyflwyno 4 safle ychwanegol yn fyw cyn cyfnod yr haf eleni sef Abermaw, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon a Bangor.

**3.2 Sut mae'r lleoliadau gorau ar gyfer gosod pwyntiau gwefru yn cael eu penderfynu?**

Fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol sy'n sail i'n strategaeth cyflwyno pwyntiau gwefru, ymgymerwyd â gwaith i asesu argaeledd pŵer trydanol a ellid ei gyflenwi mewn lleoliadau penodol yng Ngwynedd.

Yn ogystal, roedd angen edrych ar y galw am y gwasanaeth yn yr ardal, a pherchnogaeth tir yn y lleoliadau penodol. Er mwyn sicrhau proses symlach ac osgoi cytundebau cymhleth gyda pherchnogion tir trydydd parti, aseswyd yn benodol safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd yn unig.

**3.3 Pa waith sydd yn cael ei wneud er mwyn rhoi pwysau ar Scottish Power i sicrhau bod isadeiledd digonol ar gael er mwyn pweru'r pwyntiau gwefru? Allwch chi gadarnhau'r sefyllfa ddiweddaraf o ran amserlen Scottish Power**?

Ers y cyfarfod diwethaf, mae ein perthynas gwaith gyda SP Network wedi gwella ac rydym yn gweld mwy o gynnydd yn nifer o safleoedd sydd wedi eu cysylltu i fyny i'r grid cenedlaethol. Er hynny, mae yna waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod pethau yn parhau i ddatblygu.

Ers i ni adrodd ddiwethaf, rydym wedi derbyn cyflenwad trydan i safle yn Blaenau Ffestiniog, Caernarfon a Bangor, yn ogystal rydym wedi bod yn gweithio yn agos gyda SP Network i uwchraddio'r safle gwefru yn Abermaw.

Mae yna dal mwy o waith i'w gyflawni er mwyn sicrhau bod safleoedd yn Dolgellau, Llanberis a Ffordd Caerdydd, Pwllheli hefyd yn derbyn sylw.

**3.4 A oes sicrwydd na fydd angen prynu pwyntiau gwefru newydd i ddisodli'r peiriannau sydd wedi eu gosod erbyn i'r isadeiledd pwrpasol fod ar gael i bweru'r pwyntiau gwefru?**

Nid yw'n broblem rydym wedi dod ar ei draws mewn lleoliadau eraill lle mae'r peiriannau wedi eu gosod am gyfnod hir cyn cael eu cysylltu i'r rhwydwaith.

Er hynny, mi gafodd y risg canlynol ei adnabod ar gychwyn y prosiect, ac felly rydym wedi prynu mwy o beiriannau rhag ofn bod y broblem yn codi mewn rhai lleoliadau.

Mae prynu mwy o beiriannau na'r angen hefyd yn ein galluogi lleihau risg o fethu cynnal gwasanaeth gwefru os byddai peiriant sy'n weithredol ar hyn o bryd yn torri neu'n cael ei ddifrodi/ fandaleiddio.

**3.5 A fydd y Cyngor/Scottish Power yn talu iawndal i unrhyw gwmni sydd yn cael eu heffeithio wrth i drydan gael ei ddiffodd dros dro er mwyn cysylltu'r pwyntiau gwefru i'r grid?**

Does ddim galw cyfreithiol ar y Cyngor i gynnig gwasanaeth gwefru, a felly does dim ymrwymiad fyddai'n golygu dyletswydd na disgwyl i dalu unrhyw iawndal. Mae trefniadau ar gyfer cysylltu i'r grid yn ddarostyngedig o'r protocolau arferol sydd yn effeithio neu tarfu ar ddarpariaeth trydan i anheddau.

**3.6 Nid oes cynlluniau i osod peiriannau gwefru chwim mewn ardaloedd o'r Sir ble mae llawer o dwristiaid yn ymweld (megis Llŷn). A oes bwriad gosod peiriannau gwefru chwim yn yr ardaloedd hyn er mwyn annog ymwelwyr i'w defnyddio?**

Eleni, rydym yn gweithio ar gyflwyno mwy o beiriannau chwim yng Nghaernarfon, Bangor ac Abermaw.

Rydym hefyd wedi cyflwyno bid am arian i ddarparu pwyntiau gwefru chwim ym Mhwllheli.

## 4. Crynodeb a'r Materion Allweddol

4.1 Mae'r adroddiad isod yn cynnig diweddariad pellach ar gynllun Cyngor Gwynedd i ddarparu cyfleoedd gwefru i'r cyhoedd mewn meysydd parcio cyhoeddus sydd dan reolaeth y Cyngor.

4.2 Bydd angen ystyried y ffordd ymlaen ac unrhyw weithred pellach yn y maes fel mae'r prosiect penodol yma yn cael ei gwblhau.

4.3 Fe fydd Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Trydan Gwynedd, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn ogystal a'r profiad o'r cynnydd hyd yma yn amlwg yn cael dylanwad ar hyn.

4.4 Rhagwelir y bydd y Strategaeth yn mynd drwy'r prosesau mewnol priodol gyda'r bwriad o gael ei fabwysiadu yn y misoedd nesaf.

4.5 Mae disgwyliad i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ddatblygu a chyflwyno strategaeth o'r fath, fydd yn adlewyrchu ffactorau a deinameg lleol sydd yn unigryw i bob ardal.

## 5. Cefndir

5.1 Mae darparu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd yn un o'r camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30.

5.2 Nod y cynllun ydi annog teithio cynaliadwy yn y sir a hwyluso teithio gan ddefnyddio cerbydau trydan i drigolion lleol ac ymwelwyr i'r sir i deithio i bob rhan o Wynedd.

5.3 Mae'r Cyngor yn datblygu rhwydwaith o dros gant o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws Gwynedd. Mae amserlen y bydd y pwyntiau gwefru yn dod yn weithredol yn amrywio, ac mae **Atodiad A** yn dangos y sefyllfa presennol.

5.4 Mae'r rhaglen o osod pwyntiau gwefru at ddefnydd cyhoeddus yn cyfrannu tuag at nod y Cyngor i gyrraedd targed o sero net erbyn 2030. Dyma hefyd y dyddiad mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi ei osod i roi terfyn ar werthu cerbydau petrol a disel newydd.

5.5 Does dim dwywaith fod y newid pellgyrhaeddol yma yn amlygu'r angen i symud at ddatgarboneiddio'r maes trafnidiaeth dros y blynyddoedd nesaf.

5.6 Mae sicrhau fod darpariaeth addas o bwyntiau gwefru fydd yn cyfarch anghenion trigolion Gwynedd a phobl sy'n ymweld ein cymunedau yn allweddol er mwyn gwireddu hyn. Ond mae'n bwysig nodi fod y newid yn un sylweddol na welwyd ei debyg ers cenedlaethau yn y maes trafnidiaeth.

5.7 Ar hyn o bryd, mae bwlch yn y ddarpariaeth breifat o ran mannau gwefru cerbydau yng Ngwynedd, ac mae hynny'n adlewyrchu'r sefyllfa mewn nifer o ardaloedd gwledig ledled y wlad gan nad yw darparu'r gwasanaeth yn hyfyw yn economaidd i'r sector breifat ar hyn o bryd.

5.8 Mae'r gwaith o ddarparu pwyntiau gwefru ar safleoedd y Cyngor felly yn ymgais i lenwi'r bwlch yma, gan sicrhau fod yna ddarpariaeth addas ar gyfer pobl Gwynedd a'r rheini sy'n teithio trwy'r sir neu'n ymweld am gyfnod.

5.9 Mae'n glir fod yna gynnydd sylweddol o ran y nifer o geir trydan ar draws y Deyrnas Gyfunol bellach.

5.10 Mae **Atodiad B** yn dangos y Mathau o Bwyntiau Gwefru Cyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd yn y Deyrnas Gyfunol.

5.11 Mae Zapmap yn dangos ble mae'r pwyntiau gwefru ar draws y Deyrnas Gyfunol a peth gwybodaeth perthnasol arall.
[Map of electric charging points for electric cars UK: Zapmap]

5.12 Mae gwybodaeth am y cyfleusterau gwefru i'r cyhoedd mae Cyngor Gwynedd yn ei ddarparu i weld yn: [Pwyntiau gwefru ceir trydan]

5.13 Mae detholiad o luniau o Bwyntiau Gwefru Cyhoeddus Gwynedd wedi ei gynnwys yn **Atodiad C**.

## 6. Cyd-destun

### 6.1 Cyswllt gyda Chynllun y Cyngor 2023-28

Mae annog, hyrwyddo a hwyluso dulliau amgylcheddol gynaliadwy yn cyflawni ar uchelgais Gwynedd Gwyrdd o Gynllun y Cyngor 2023-28. Mae cyflwyno rhwydwaith o bwyntiau gwefru hefyd yn flaenoriaeth yng Nghynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor, sy'n flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

### 6.2 Ystyriaethau Ffordd Gwynedd

Mae cynnig cyfleusterau gwefru mewn mannau cyhoeddus yn sicrhau fod cyfleoedd i drigolion Gwynedd sydd heb argaeledd neu fynediad i bwyntiau gwefru eu hunain i newid a defnyddio cerbydau trydan.

### 6.3 Y cyd-destun deddfwriaethol

Tra does dim galw deddfwriaethol i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau gwefru cyhoeddus mae eu darparu yn cefnogi amryw uchelgais a dyhead strategol ar sawl lefel.

### 6.4 Opsiynau posib ar gyfer y dyfodol

Fe fydd opsiynau ar gyfer y dyfodol yn rhannol cael ei ystyried fel rhan o Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Trydan Gwynedd sydd dan ddatblygiad.

Fe fydd y Strategaeth yn rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth gwefru fydd yn cynnwys pwyntiau personol/preifat yn ogystal a rhai fydd ar gael i'r cyhoedd ar ac oddi ar y stryd.

### 6.5 Risgiau - beth yw'r risgiau a beth ellir ei wneud i'w lliniaru

Mae'n faes deinamig ac anwadal. Mae datblygiadau mewn technoleg yn barhaus a mae diddordeb a defnydd o gerbydau trydan yn benodol yn cynyddu wrth i gymdeithas symud o gerbydau petrol a disel.

Mae'r gwaith o ddarparu'r pwyntiau gwefru cyhoeddus hyd yn hyn wedi ei wneud o fewn adnoddau presennol. Mae hyn wedi dylanwadu ar yr adnodd a capasiti sydd wedi bod ar gael ar gyfer gweithredu'r cynllun. Fe fydd hyn yn ystyriaeth a risg posibl wrth symud ymlaen gan, heb adnodd ychwanegol neu benodol, bydd y gwaith yn cystadlu gyda gwaith a blaenoriaethau eraill. Bydd ystyriaeth i'r model o ddarparu yn fodd posib o liniaru risgiau a disgwyliadau ar y Cyngor o ran y ddarpariaeth.

Mae'r Cyngor yn defnyddio arbenigedd y gwasanaeth goleuo stryd i osod y peiriannau ond yn ddibynnol ar ddarparwyr arbenigol allanol i sicrhau fod y pwyntiau gwefru yn cael eu cysylltu ac yn barod i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae peth oedi wedi bod mewn rhai lleoliadau i gysylltu'r peiriannau gyda'r cyflenwad a derbyn tystysgrif perthnasol i gadarnhau fod modd i'r peiriant gael eu defnyddio gan y cyhoedd.

Mae gwaith yn bwrw ymlaen i ddarparu'r rhwydwaith o bwyntiau gwefru ac mae swyddogion y Cyngor yn trafod gyda darparwyr i geisio sicrhau fod y peiriannau yn weithredol mor fuan ag sy'n bosib. Gan fod y sefyllfa yn amrywio mewn safleoedd gwahanol, mae'r amserlen i'r peiriannau fod yn weithredol yn wahanol a ddim yn llwyr dan reolaeth y Cyngor.

Mae gwaith i osod cyflenwad a mesurydd trydan, sicrhau tystysgrif trydanol a gwaith comisiynu angenrheidiol nes fod pob peiriant sydd wedi ei osod yn weithredol. Mae gwaith yn parhau gyda'r cyflenwyr i sicrhau fod yr holl safleoedd yn weithredol mor fuan â phosib. Ond eto, gan fod y gwaith yma yn ddarostyngedig ar eraill nid yw'n llwyr rheolaeth y Cyngor a gyda hynny yn achosi risg.

**6.6 Sefyllfa gyllidol y maes, amcangyfrif o gost gweithredu unrhyw newidiadau, ffynonellau cyllido etc.**

Mae grantiau ac arian o goffrau'r Cyngor wedi cefnogi'r cynllun hyd yn hyn. Fe fydd y Strategaeth newydd yn holl allweddol yn gosod y fframwaith ar gyfer y ddarpariaeth, a trefniadau fydd yn tanategu hynny sy'n cynnwys o safbwynt gyllidol, fod y Cyngor yn dymuno ei fabwysiadu.

Mae prisiau tanwydd yn anwadal iawn a mae'n amhosib rhagolygu yn y tymor canolig i hir beth fydd y hinsawdd a costau'n gysylltiedig a darpariaeth trydan.

**6.7 Arfer da yn y maes**

Gan fod yna rinweddau unigryw sy'n berthnasol i Wynedd, mae modd ystyried ymarfer da o wahanol ogwydd ac o wahanol leoedd arall ac yna teilwra hyn i'r ymagwedd yma.

Mae ymarfer da wedi ei nodi, yn dylanwadu a wedi ei gynnwys o fewn y Strategaeth.

**6.8 Datblygiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sut mae modd darparu cyfleusterau ar y stryd boed hyn ar gyfer preswylwyr lleol i wefru o'u cartrefi a/neu fod na bwyntiau gwefru yn ffurfio rhan o'r briffordd ac ar gael i ddefnydd cyhoeddus. Mae yna nifer o ystyriaethau a heriau yn gysylltiedig i hyn a byddwn yn fyw i ddatblygiadau sy'n cynnwys adborth o gynlluniau peilot fydd yn cymryd lle.

**6.9 Data perfformiad**

Mae data yn cael ei gasglu ar sail barhaus o safbwynt defnydd y pwyntiau gwefru fel nodwyd uchod (2.4), y costau ac incwm yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Yn 2024/25 rhagolygir bydd incwm net oddeutu £30,000 yn deillio o'r cynllun.

**6.10 Beth sydd wedi ei gyflawni**

Mae'r hyn sydd wedi ei gyflawni wedi ei gyfeirio eto eisoes yn yr adroddiad a medir gweld crynhoad o hyn mewn **Atodiad A.**

**6.11 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

Bydd y Strategaeth yn adnabod y blaenoriaethau a be sydd yn fwyaf perthnasol a debygol o gwrdd a disgwyliadau a galw mewn ardal fel Gwynedd.

**7. Ymgynghori**

7.1 Fe wnaeth y Cyngor gynnal ymarferiad ymgysylltu er mwyn derbyn sylwadau gan drigolion am leoliadau y byddent am weld pwyntiau gwefru yn cael eu cyflwyno at ddefnydd cyhoeddus.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### 8.1 A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Fe wnaeth y Cyngor gynnal ymarferiad ymgysylltu er mwyn derbyn sylwadau gan drigolion am leoliadau y byddent am weld pwyntiau gwefru yn cael eu cyflwyno at ddefnydd cyhoeddus.

Rydym yn derbyn adborth gan y cyhoedd ynglŷn a'r maes gwaith ac yn edrych i ymateb yn gadarnhaol i hyn.

### 8.2 A ydych wedi ystyried cydweithio?

Rydym wedi cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth. Mae hyn yn mynd i fod yn ffactor barhaus gyda datblygiadau yn y maes yma gan does dim un corff yn llwyr gyfrifol a/neu arwain arno.

Mae'n debygol iawn fydd fwyfwy o drigolion lleol yn cyflwyno pwyntiau gwefru yn eu cartrefi, lleoliadau gwaith a chanolfannau eraill, megis siopau, hefyd yn cynnig darpariaeth wrth i'r galw a disgwyliad dyfu.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cyd-weithio a chefnogi datblygiad y Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Trydan.

### 8.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Fe fydd gweithredu'r cynllun yn sicrhau rhyw lefel o ddarpariaeth mewn ardaloedd ble na fyddai'r sector breifat neu trydydd sector, ar hyn o bryd, yn gwneud. Y tebygolrwydd yw fydd y tirlun yn newid o hyn o beth dros y blynyddoedd nesaf.

### 8.4 Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Wrth i gymdeithas yn gyffredinol symud o gerbydau petrol a disel fe fydd anghenion pobl ar gyfer argaeledd a mynediad i bwyntiau gwefru yn cynyddu. Mae'n aneglur eto beth fydd y proffil a/neu galw am hyn a rôl awdurdodau lleol yn diwallu hyn, os o gwbwl.

### 8.5 Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Fe fydd sicrhau cyfleodd gwefru i drigolion ag ymwelwyr yn ddarostyngedig o gyd-weithio parhaus gyda cyrff cyhoeddus ond hefyd yn y sector breifat a trydydd sector. Y bwriad fydd osgoi dyblygiad ond cynnig cyfleoedd gwefru yn ddaearyddol ar draws Gwynedd.

## 9. Camau Nesaf

9.1 Parhau gyda'r rhaglen i gyflwyno pwyntiau gwefru sydd wedi eu cytuno fel rhan o'r cynllun penodol yma a amlinellwyd yn **Atodiad A**.

9.2 Fod y Cyngor yn ystyried ac yna mabwysiadu'r Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Trydan a fod hwn yn llywio a llunio ymagwedd y Cyngor tua'r maes penodol i'r dyfodol. Fe fydd hyn yn cynnwys ystyried y modelau darparu a'r adnodd i reoli a wireddu'r Strategaeth.

**10. Cloi**

10.1 Cyflwynir yr adroddiad fel diweddariad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, am y gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma wrth ddatblygu rhwydwaith peiriannau gwefru ynghyd â'r hyn sydd ar y gweill dros y cyfnod nesaf.

**11. Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Lleoliadau gwefru cyhoeddus Cyngor Gwynedd |
| Atodiad B | Mathau Pwyntiau Gwefru |
| Atodiad C | Pwyntiau Gwefru Cyhoeddus Gwynedd |

**Atodiad A**
**Lleoliadau gwefru cyhoeddus Cyngor Gwynedd**

| **Lleoliadau** | | **Ydi'r safle yn fyw?** | **7kW** | **22kW** | **50kW** | **150kW** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Intec, Parc Menai | Bangor | Ydi | 4 | | | | |
| Canolfan Hamdden, Arfon | Caernarfon | Ydi | 2 | 1 | 1 | | |
| Canolfan Hamdden, Dwyfor | Pwllheli | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Maes Parcio Penmount | Pwllheli | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Canolfan Hamdden, Penllyn | Bala | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Canolfan Hamdden, Glan Wnion | Dolgellau | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Canolfan Hamdden, Bro Dysynni | Tywyn | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Prif Maes Parcio, Aberdyfi | Aberdyfi | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Bron-y-Graig Uchaf | Harlech | Ydi | 4 | 0 | 0 | | |
| Canolfan Hamdden, Plas Ffrancon | Bethesda | Ydi | 0 | 1 | 1 | 0 | |
| | | | | | | | |
| **Safle Trafnidiaeth Cymru** | | | | | | | |
| Iard yr Orsaf | Porthmadog | Ydi | | 2 | 2 | | |
| Y Marian, Dolgellau | Dolgellau | Ydi | | 2 | 2 | | |
| Y Green | Y Bala | Ydi | | 1 | 1 | | |
| Diffwys | Blaenau Ffestiniog | Ydi | | 2 | 2 | | |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm** | | **34** | **9** | **9** | **0** | **52** |

**Rhestr Rhaglen Waith 2025**

| Lleoliadau arfaethedig | Lleoliad | Ydi'r safle yn fyw? | 7kW | 22kW | 50kW | 150kW | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes Parcio Safle Shell | Caernarfon | Na | 6 | 3 | 3 | 0 | Safle wedi'i gysylltu â'r grid, yn aros am waith cysylltiad trydanol. |
| Maes Parcio Diffwys | Blaenau Ffestiniog | Na | 4 | 0 | 0 | 0 | Angen tystysgrif prawf. |
| Maes Parcio Sgwâr Kyffin | Bangor | Na | 0 | 2 | 2 | 0 | Aros am fesurydd a thystysgrif prawf. |
| Prif Maes Parcio, Abermaw | Abermaw | Na | 4 | 2 | 2 | 0 | Disgwyl i'r isadeiledd trydanol gael ei uwchraddio yn y ganolfan hamdden. |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm** | | **14** | **7** | **7** | **0** | **28** |

**Lleoliadau eraill (cyllid i'w gadarnhau)**

| Lleoliadau arfaethedig | Lleoliad | Ydi'r safle yn fyw? | 7kW | 22kW | 50kW | 150kW | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes Parcio Y Marian | Dolgellau | | 4 | 0 | 0 | 0 | Peiriannau gwefru yn eu lle, yn aros am gysylltiad trydanol |
| Maes Parcio Pwll Nofio Bangor | Bangor | Na | 4 | 0 | 1 | 0 | - |
| Canolfan Hamdden, Plas Silyn | Penygroes | | 0 | 1 | 1 | 0 | Peiriant gwefru wedi'i osod yn aros am gyllid ar gyfer cysylltiad Pŵer |
| Canolfan Hamdden, Glaslyn | Porthmadog | Na | 4 | 0 | 0 | 0 | Pŵer yn cael ei ddefnyddio i gysylltu bysiau cerbydau trydan, angen asesu |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | safleoedd eraill ym Mhorthmadog |
| Maes Parcio Ger-y-Llyn | Llanberis | | 4 | 0 | 0 | 0 | Methu mynd ar y safle i wneud y gwaith o gysylltu’r peiriannau oherwydd Gwaith Uwchraddio'r Grid Cenedlaethol |
| Maes Parcio Ffordd Caerdydd | Pwllheli | Na | 6 | 0 | 0 | 2 | Disgwyl i is-orsaf newydd gael ei hadeiladu |
| Maes Parcio Dinas Dinlle | Dinas Dinlle | Na | 4 | 0 | 0 | 0 | |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm** | | **26** | **1** | **2** | **2** | **31** |

**Atodiad B**
**Mathau o Bwyntiau Gwefru**

| Math | Pŵer | Amser Gwefru 250 milltir |
|---|---|---|
| **Araf**  | **3.6kW** | **Hyd at 24 awr** |
| **Cyflym**  | **7-22kW** | **4-8 awr** |
| **Chwim**   | **50-120kW** | **1-2 awr** |
| **Ultra Chwim**   | **100-350kW** | **20-40 munud** |

**Atodiad C**
**Pwyntiau Gwefru Cyhoeddus Gwynedd**
















Man gwefru cerbydau trydan yn unig
Electric vehicle recharging point only
90mun dim dychwelyd o fewn 90mun
90min no return within 90min
TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES
SWARCO SMART CHARGING
50 kW


swarco

